



Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 i 2020

Eich barn am y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd: arolwg ar-lein

Mae Is-adran Bwyd Llywodraeth Cymru wedi comisiynu yr arolwg ar-lein hwn fel rhan o'r gwerthusiad parhaus o'r Cynllun Buddsoddi mewn Bwyd - Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru yw y rheolwr data ar gyfer yr arolwg, sy'n cael ei reoli gan ymchwilwyr cymdeithasol y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi. Nid ydym yn gofyn am unrhyw ddata personol gennych. Fodd bynnag, bydd unrhyw ddata personol a ddarperir drwy'r opsiynau ymateb drwy sylwadau agored yn cael eu golygu, a'r data amrwd yn cael ei wneud yn ddiennw, cyn iddo gael ei rannu ar gyfer ei ddadansoddi.

Rydych wedi derbyn y gwahoddiad hwn i lenwi'r arolwg gan Dîm Ymchwil Dyfodol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, sy'n cynnal y gwaith ymchwil ar ran Tîm yr Is-adran.

Mae'r arolwg hwn yn anelu at gasglu barn a phrofiadau derbynwyr y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd, ac i dynnu sylw at unrhyw feysydd ble y mae angen gwelliannau.

Dyma'r amcanion ymchwil:

- mesur boddhad ymatebwyr gyda'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd
- chwilio am sylwadau am unrhyw feysydd sy'n gweithio'n dda
- chwilio am sylwadau am feysydd ar gyfer gwella
- defnyddio'r canfyddiadau i helpu i flaenoriaethu a datblygu cynlluniau cyllido yn y dyfodol.

Bydd prif ymchwilydd Tîm Ymchwil Dyfodol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn cynnal ac yn dadansoddi'r arolwg.

Bydd y cyfraniad yn hollol wirfoddol. Fodd bynnag mae eich barn a'ch profiadau o'r cynllun yn bwysig er mwyn llywio'r gwelliannau.

Hysbysiad preifatrwydd

Data Personol

Caiff data personol ei ddiffinio o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol fel "unrhyw wybodaeth ynghylch canlyniadau sydd heb eu rhestru uchod, neu unrhyw sylwadau ynghylch eich atebion uchod, nodwch hynny yma". Mae cyfeiriadau ebost derbynwyr y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd wedi'u cadw gan yr Uned Rheoli Cynlluniau. Mae swyddogion polisi Tîm yr Is-adran Fwyd wedi paratoi sampl o ymatebwyr posibl yr arolwg o'r cyfeiriadau ebost hyn. Maent wedi'u cadw mewn ffolder mynediad cyfyngedig.

Cewch ddewis inni beidio â chysylltu â chi i gymryd rhan, a chael eich atgoffa ynghylch yr arolwg, drwy anfon ebost at yr un sydd wedi eich gwahodd i'r arolwg, fydd yn tynnu eich cyfeiriad ebost o'r sampl.

Nid yw'r arolwg yn gofyn am wybodaeth bersonol amdanoch, fyddai'n golygu bod modd inni eich adnabod. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwch yn dewis darparu data personol drwy'r cwestiynau agored. Os caiff data personol ei ddarparu mewn ymatebion i gwestiynau agored, rydym yn tynnu yr wybodaeth hon yn ôl wrth dderbyn yr ymateb. Nid ydym yn ceisio eich adnabod chi o'r ymatebion a ddarperwch, na'ch cysylltu chi i'r ymatebion yr ydych yn eu darparu.

Os ydych yn gwneud ymholiad neu gwyn ac yn darparu data personol yn gofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd ond yn anfon y cais ymlaen i'r swyddog polisi perthnasol ac yna'n ei ddileu o'r data ymchwil.

Bydd unrhyw wybodaeth sy'n golygu bod modd adnabod person yn cael ei olygu o ddata amrwd yr arolwg a'r canlyniadau'n cael eu gwneud yn ddi-enw.

Beth yw'r sail gyfreithiol dros gasglu'r data personol?

Y sail gyfreithiol dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; sef ymarfer ein hawdurdod swyddogol i gynnal swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae arolwg fel rhain yn bwysig i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth a thystiolaeth y mae modd gweithredu arnynt ynghylch ei gallu i gyflawni blaenoriaethau y llywodraeth. Mae Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru yn galluogi'r sector Bwyd a Diod i gyfrannu at sawl nod yn [Llewyrch i Bawb](#) - strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru i gyflawni ei phrif flaenoriaethau ar gyfer tymor y Cynulliad hwn - gan gynnwys cyflogadwyedd.

Mae'r rhaglen hefyd yn ddull o ysgogi newid ar gyfer nifer o'r nodau sy'n cael eu rhestru o dan y [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#).

Pa mor ddiogel yw unrhyw ddata personol sy'n cael ei gyflwyno?

Wrth gynnal arolygon, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio rhaglen feddalwedd ar gyfer arolygon, o'r enw Questback. Rydym wedi sicrhau bod Questback yn cydymffurfio â'r GDPR ac yn bodloni ein disgwyliadau o ran diogelwch unrhyw ddata sy'n cael ei gasglu drwy'r meddalwedd (e.e. caiff pob data ei brosesu o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd). Dim ond nifer cyfyngedig o ymchwilyr all lawrlwytho'r data. Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr arolwg hwn. Bydd unrhyw ddata personol sy'n golygu bod modd adnabod unigolyn yn cael ei ddileu gan ymchwilyr o Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru wrth dderbyn yr ymatebion. Bydd unrhyw ddata sy'n cael ei gasglu o sefydliadau partner felly yn cael ei gadw yn ddi-enw. O ganlyniad, nid oes unrhyw wybodaeth ble y mae modd adnabod person o'r arolwg hwn yn cael ei gadw gan ymchwilyr Llywodraeth Cymru.

Bydd y data di-enw o'r arolwg hwn yn cael ei gadw o fewn ffeiliau cyfyngedig, ble mai dim ond yr ymchwilyr sy'n gweithio ar y gwerthusiad sy'n cael mynediad ato. Wrth adrodd yn ôl ar waith ymchwil, byddwn yn gwneud hynny yn ôl cyfansymiau ac yn ddienw, fel nad oes modd adnabod cyfranogwyr.

Am ba gyfnod fyddwch chi'n cadw unrhyw ddata personol sy'n cael ei gyflwyno?

O ran cadw data, bydd ymchwilyr o'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn golygu unrhyw wybodaeth ble y mae modd adnabod pobl a gyflwynir gan ymatebwyr, wrth dderbyn yr wybodaeth. Ni fyddwn yn cadw unrhyw wybodaeth personol gan ymatebwyr yr arolwg wedi'r pwynt hwn.

Bydd data di-enw yr arolwg yn cael ei ddileu 12 mis wedi cyhoeddi'r adroddiad Ymchwil Cymdeithasol y Llywodraeth, i'w gyhoeddi ar dudalennau Llywodraeth Cymru ar y we erbyn Ebrill 2019.

Eich Hawliau

O dan y GDPR, mae gennych yr hawliau canlynol mewn cysylltiad â'r wybodaeth personol y byddwch yn ei ddarparu fel rhan o'r gwerthusiad hwn:

- yr hawl i gael mynediad (gofyn am gopi o'ch data eich hun)
- yr hawl i gywiro (cywiro gwybodaeth anghywir)
- yr hawl i wrthwynebu neu i gyfyngu ar brosesu eu data
- yr hawl i ddileu
- yr hawl i wneud cwyn i swyddfa y comisiynydd gwybodaeth.

Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ynghylch sut y bydd y data sy'n cael ei ddarparu fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael ei ddefnyddio gan ymchwilyr Llywodraeth Cymru neu yn dymuno ymarfer eich hawliau drwy ddefnyddio'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, cysylltwch â:

Kate Mulready (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru)

Rhif Ffôn: 0300 025 1481

E-bost: kathleen.mulready@llyw.cymru

Gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Ebost: DataProtectionOfficer@llyw.cymru

Mae gan unigolion hefyd yr hawl i wneud cwyn ynghylch y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi prosesu unrhyw wybodaeth bersonol yr ydych wedi'i gyflwyno drwy'r arolwg hwn gyda Swyddfa y Comisiynydd Gwybodaeth, ac mae modd cysylltu â hwy ar 029 2067 8400 / 0303 123 1113.